

Canllaw i Storio a Gofalu am Ddeunydd Archifol

Cyflwyniad

Mae'r broblem fwyaf gyda phapur – asidrwydd – yn dod i'r amlwg wrth gynhyrchu. Mae'r achosion yn niferus, ond y mwyaf amlwg yw cynnwys mwydion pren i gynhyrchu swmp. Oni bai bod y mwydion wedi'u trin yn gemegol i ddileu lignin a bod y cemegau eu hunain wedi'u dileu'n gyfan gwbl, cynhyrchir asidrwydd anferthol, gan achosi'r bondiau cemegol yn ffibr cellwlos y papur i ddadelfennu. Caiff y broses ei chyflymu gan ffactorau amgylcheddol niweidiol. Mae achosion eraill yn cynnwys defnyddio ystor, alwm a channydd wrth gynhyrchu'r papur. Mae'n bosibl y gall papur a gynhyrchwyd ers 1830 gynnwys unrhyw rai o'r rhain; cyn y dyddiad hwnnw, roedd bron pob darn papur yn alcaliaidd yn naturiol, gan ei fod wedi'i wneud o liain a chlytiau cotwm.

Hwyrach y bydd lledr yn achosi problemau cynhenid. Yn ystod hanner cyntaf y 19eg ganrif, cafodd cemeg traddodiadol trin lledr ei newid i gyflymu'r broses. Y canlyniad oedd lledr a all bowdro i gyflwr o'r enw pydredd coch. Y farn gyffredinol yw bod hyn yn cael ei achosi gan fygdarthau sylffwr sy'n gysylltiedig â llosgi tanwydd ffosil.

Ffactorau Amgylcheddol

- Mae gormod o olau (golau dydd yn bennaf) yn cynnwys cyfran uchel o ymbelydredd golau uwchfioled sy'n gallu achosi papur i fynd yn frau, i felynu ac i'w ansawdd ddirywio yn gynt.
- Mae tymheredd uchel yn cyflymu dirywiad cemegol papur, mae 20°C yn dymheredd da ar gyfer ystafelloedd lle mae llyfrau a dogfennau'n cael eu cadw.
- Mae lleithder cymharol (cyfanswm yr anwedd dŵr yn yr aer) hefyd yn bwysig, 55% yw'r lefel a argymhellir ar gyfer y rhan fwyaf o ddeunyddiau llyfrgell. Mae lleithder uchel yn achosi adweithiau cemegol gwael i gynyddu a gall hefyd arwain at gynydd mewn llwydni. Mae lleithder cymharol isel yn achosi deunydd i fynd yn sych a brau.
- Llŵch yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o lygredd yn yr aer. O dan y microsgop, gwelir bod gronynnau llŵch yn arw a tholciog. Wrth i'r gronynnau hyn symud dros a rhwng ffibrau'r papur, maent yn achosi sgraffinio. Mae nwyon yn llygryddion niweidiol eraill. Sylffwr deuocsid o danwydd ffosil a nitrogen o gerbydau modur.
- Mae gelynyddion biolegol yn cynnwys ffyngau (llwydni) a gwahanol anifeiliaid a phryfaid. Gall llwydni ymddangos os yw'r lleithder cymharol yn uwch na 65% am fwy na 48 awr. Gall anifeiliaid (llygod mawr, llygod bach, ystumod ac ati) a

phryfaid symud i mewn os yw'n hawdd cael mynediad ac os na fyddant yn cael eu tarfu.

Llyfrau

- Y ffordd orau o storio llyfrau o faint cyffredin yw yn unionsyth ar silffoedd gyda bwtresi llyfrau (book ends), yn ddigon rhydd fel y gellir eu symud yn hawdd ond yn ddigon tynn i atal llwch rhag ymdreiddio i mewn i'r llyfrau.
- Dylai fod lle y tu ôl i lyfrau ar silffoedd i alluogi cylchrediad aer. Dylai llyfrau mewn cypyrddau llyfrau caeedig gael eu hawyru'n wythnosol. Gall llwydni ymosod ar lyfrau sy'n cael eu gadael yn llonydd mewn cypyrddau llyfrau caeedig am gyfnodau hir.
- Dylid storio llyfrau trwm neu fregus ar eu gwastad, yn unigol yn ddelfrydol ond byth mwy na thri gyda'i gilydd, i warchod chwydd y meingefn ac i leihau'r tebygolrwydd o'u difrodi wrth eu symud.
- Bydd llyfrau sydd angen eu hatgyweirio, efallai gan fod eu cloriau'n rhydd neu eu colfachau wedi torri ac ati, angen amddiffyniad ychwanegol fel eu clymu â thâp cotwm heb ei gannu, eu lapio neu eu rhoi mewn bocsys o ddeunyddiau di-asid.




Llyfr gyda chloriau rhydd wedi'u clymu (noder lleoliad y ddolen i osgoi treulio llyfrau cyfagos)

- Dylai unrhyw ddarnau rhydd, fel toriadau, llyfrnodau a blodau wedi'u gwasgu, gael eu tynnu o lyfrau. Os cânt eu gadael yn y llyfr, gallant achosi staenio neu ledaeniad asid.

Dogfennau

- Caiff clipiau papur metel, ffasnyddion papur, pinnau a staplau eu tynnu o ddogfennau. Os cânt eu gadael, byddant yn difrodi'r papur trwy achosi

staeniau rhwd a thyllau. Mae yna sawl dewis amgen: clipiau papur pres neu ddur gwrthstaen gyda thab papur di-asid i ddiogelu'r ddogfen, ffolderi di-asid neu glymu â thâp cotwm.



Stribyn papur amddiffynnol o dan glip papur

- Caiff unrhyw fandiau rwber eu tynnu gan y byddant yn darfod ac yn gadael staen parhaol o bosibl.
- Ni ddylid trwsio dogfennau wedi'u rhwygo gyda thâp adlynol gan y bydd y tâp hwnnw'n dirywio'n gyflym, gan achosi rhagor o ddifrod i'r ddogfen. Mae storio dogfennau mewn llawes bolyester wedi'i weldio ar y ddwy ochr (ar gyfer mynediad syml) yn ffordd dda o atal difrod pellach.
- Y ffordd orau i storio dogfennau yw ar eu gwastad a heb eu plygu gan y gall plygu dogfennau achosi'r papur i dorri. Dylid eu storio mewn ffolderi, amlenni neu focsys di-asid. Gall storio dogfennau'n unionsyth heb eu cynnal achosi taflenni unigol i blygu a chyrlio, gan achosi straen.
- Mae llewys polyester neu lungopïo'n ffordd dda o ddiogelu dogfennau sy'n cael eu trafod yn aml.

Pamffledi, llyfrynnau, cylchgronau

- Archwiliwch staplau am rwd; efallai y bydd angen eu tynnu i atal difrod pellach.
- Dylid eu storio'n llorweddol mewn deunydd lapio, waledi neu focsys di-asid. Dim ond os gosodir gwahanyddion i ddarparu digon o gynhaliaeth yn ystod storio tymor hir y mae ffeiliau storio cylchgronau'n addas.



Dylech osod edau pwytho rhwymwyr llyfrau mewn pamffledi yn lle staplau wedi rhydu (defnyddiwch dyllau'r staplau os yn bosibl)

Papurau newydd

- Yn aml, gall y rhain fod yn frau oherwydd cyfanswm y mwydion pren yn y papur. Dylid gosod papurau newydd rhwng cloriau di-asid cyn eu lapio; bydd hyn yn cynnal y papur ac yn ei amddiffyn rhag difrod tâp pan fydd yn cael ei glymu.
- Mae toriadau papur newydd mewn albymau yr un mor debygol o ddirywio, gyda'r adlynon a ddefnyddir i'w rhwymo yn aml yn ychwanegu at eu problemau. Hwyrach mai llungopïo i bapur di-asid yw'r ffordd orau o ddiogelu'r wybodaeth.

Mapiau a Chynlluniau

- Dylid eu storio'n wastad mewn ffolderi di-asid. Os oes rhaid rhoio mapiau neu gynlluniau, dylid gwneud hynny o amgylch tiwb cardbord di-asid, gyda phapur di-asid wedi'i lapio o amgylch y tu allan. Dylid gadael i warchodwr ddadrollo mapiau brau wedi'u rhoio.
- Ni ddylid arddangos mapiau ond, os oes rhaid gwneud hynny, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u mowntio i safon amgueddfa. Dylent fod yn ddigon pell o olau dydd uniongyrchol a ffynonellau gwres fel rheiddiaduron a thanau.

Deunyddiau Ffotograffig

- Mae ffotograffau'n cynnwys dwy haen, cludwr y ddelwedd (gelatin fel arfer) a'r hyn sy'n ei gynnal. Mae angen i haen y ddelwedd fod ychydig yn asidig er mwyn iddi aros yn sefydlog, felly mae angen darparu amgylchedd niwtral wrth storio.

- Bydd ffilm bolypropylen a polyester neu bapur storio ffotograffig pH niwtral ('Silversafe') a ddefnyddir fel llewys, amlenni neu ddalenni mewnol yn darparu'r amgylchedd niwtral a argymhellir.
- Ni ddylid trafod ffotograffau nad ydynt mewn llewys oni bai eich bod yn cydio yn yr ymylon neu'n gwisgo menig cotwm gwyn glân i leihau'r posibilrwydd o adael olion bysedd a baeddu'r deunyddiau.
- Ni ddylid arddangos ffotograffau gwreiddiol gan eu bod yn sensitif iawn i olau.
- Yn ddelfrydol, dylai lleithder cymharol a thymheredd fod yn isel iawn ar gyfer storio deunydd ffotograffig ond mae'n bwysicach fyth nad yw'r lefelau'n amrywio (gall hyn achosi'r cludwr i gracio neu fflawio).
- Dylid storio printiau ar eu hymyl, hyd yn oed os ydynt wedi'u mowntio, fel bod pob un yn cynnal ei bwysau ei hun. Gall storio printiau'n wastad arwain at gynhafiaeth anwastad, gan achosi'r cefn i anffurfio neu gracio haen y ffilm.
- Dylid storio negatiffau gwydr a sleidiau'n fertigol, mewn bocsys â chlwr wedi'u gwneud yn arbennig mewn ffolderi unigol neu ddalenni mewnol o ffilm bolyester.
- Dylid rhoi albymau mewn bocsys i'w diogelu rhag golau a llwch.
- Peidiwch byth â defnyddio amlenni na ffolderi plastig PVC (polyfinyl clorid). Mae'r plastig hwn yn dirywio, gan ollwng anweddau sy'n tarneisio delweddau ffotograffig arian printiau a negatiffau du a gwyn. Peidiwch â storio printiau mewn albymau hunanadlynol gan y gall y cyfuniad o bapur asidig ac adlyn o safon wael staenio'r print, sy'n golygu na ellir dileu'r staen ar ôl rhai blynyddoedd.
- Mae ansefydlogrwydd cemegol yn ffactor pwysig yn nirywiad deunyddiau ffilm cynnar. Os yw negatiffau ffilm yn frau, wedi'u tarneisio, yn ludiog neu'n ymddangos yn donnog ac yn llawn swigod aer, dylid gwahanu'r negatiffau o weddill y casgliad ac ymgynghori â gwarchodwr deunyddiau ffotograffig.
- Dylech osod negatiffau gwydr wedi'u torri yn ofalus mewn cynhwysyddion papur archifol. Defnyddiwch gynhwysydd gwahanol wedi'i nodi'n glir ar gyfer pob darn i leihau'r posibilrwydd o grafu neu ddifrod pellach
- Dylid storio ffilmiau du a gwyn a lliw yn fertigol mewn tuniau di-rwd diddos mewn amgylchedd tywyll di-llwch nag yw'n rhy gynnes. Mae'n bwysig bod pob ffilm yn cael ei weindio'n gyfartal. Dylid hefyd archwilio pob ffilm ar ôl ei

defnyddio a'i rhedeg yn flynyddol. Gwnewch yn siŵr bod taflunyddion yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da.

Cofnodion i'w Darllen gan Beiriant

Recordiau gramoffon:

- Cadwch nhw mewn llewys polythen mewn gorchuddion gwreiddiol neu newydd.
- Storiwch nhw'n unionsyth mewn man tywyll sy'n cael ei awyru'n dda ac nad yw'n rhy gynnes.
- Mae'n rhaid cadw cyfarpar chwarae mewn cyflwr da, gellir golchi'r nodwydd gyda brwsh dyfrlliw sych.
- Cydiwch yn y recordiau wrth eu hymyl i gadw olion bysedd oddi ar y wyneb chwarae a fydd yn denu llwch sy'n gallu ymdreiddio i'r wyneb chwarae

Tapiau a disgiau magnetig (fideos, casetiau a disgiau hyblyg):

- Storiwch nhw'n unionsyth mewn amgylchedd di-llwch ac yn ddigon pell o olau cryf ac amrywiadau sydyn mewn tymheredd a lleithder.
- Storiwch tapiau fel maen nhw ar ôl chwarae gan na fydd y tâp o dan gymaint o bwysau ag ar ôl ei ailddirwyn
- Cadwch nhw'n ddigon pell o feysydd magnetig a gynhyrchir gan foduron trydan, setiau teledu a llungopiwyd fel na fydd deunydd yn cael ei ddileu o'r tapiau neu'r disgiau.
- Cofiwch chwarae tapiau i'r diwedd fel na fydd rhannau poblogaidd yn treulio mwy na rhannau eraill.
- Rhowch dâp glanhau yn y peiriant yn rheolaidd.
- Mae'r dechnoleg hon bron wedi mynd allan o arfer, a dylid ei throsglwyddo neu ei storio ar yriant caled cyfrifiadur cyn gynted â phosibl fel na chaiff y wybodaeth ei cholli.

Disgiau optegol (CDs a DVDs):

- Ceisiwch osgoi cyffwrdd â'r wyneb, gall gael ei grafu'n hawdd, mae asidau ac olewau o fysedd yr un mor ddinistriol.
- Ceisiwch ddiogelu deunydd electronig a digidol rhag hylif a llwch, yn ogystal â golau dydd uniongyrchol neu wres eithafol.
- Dylid storio'r disgiau'n fertigol mewn cynhwysyddion cadarn wedi'u gwneud yn arbennig.
- Glanhewch y gyriannau'n rheolaidd i atal difrod i'r cyfrwng.

- Peidiwch â gadael disgiau mewn gyriannau.
- Rhowch labeli ar y manau a argymhellir gan y cynhyrchwr yn unig.
- Mae'r dechnoleg hon yn datblygu'n gyflym; i sicrhau na chaiff cofnodion eu colli wrth i fformatau fynd allan o ffasiwn, mae angen eu trosglwyddo i unrhyw system storio newydd a fabwysiadir.

Cyngor Pellach

Ni allwn roi sylw i warchod ac atgyweirio deunydd wedi'i ddifrodi neu wedi dirywio mewn taflenni fel hyn. Dim ond gwarchodwr cymwys ddylai wneud gwaith cadwraeth ar gofnodion gwerthfawr, waeth a yw'r gwerth hwnnw'n hanesyddol, yn bersonol neu'n ariannol. Mae cyngor am ddim a gwasanaethau cadwraeth am dâl ar gael gan adran cadwraeth Archifdy Morgannwg. Gallwch hefyd brynu rhai deunyddiau o safon archifol o Archifdy Morgannwg.